



# **Canllaw i'r**

## **Broses Ddeddfwriaethol yng**

### **Nghynulliad Cenedlaethol Cymru**

Swyddfa Ddeddfwriaeth  
Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad

Mehefin 2007



# **Canllaw i'r Broses Ddeddfwriaethol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru**

Swyddfa Ddeddfwriaeth Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad

Argraffiad 1

Mehefin 2007

© Hawlfraint Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2007

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Swyddfa Ddeddfwriaeth Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad** 029 2089 8224 / 8008

Neu anfonwch e-bost at: [sian.wilkins@wales.gsi.gov.uk](mailto:sian.wilkins@wales.gsi.gov.uk)  
[gareth.williams@wales.gsi.gov.uk](mailto:gareth.williams@wales.gsi.gov.uk)



# CYNNWYS

## Cyflwyniad

### 1. Cefndir

### 2. Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD)

- 2.1 Beth yw Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD)?
- 2.3 Pwy sy'n gallu cynnig GCD?
- 2.4 Beth yw'r broses ar gyfer ystyried GCD?
- 2.5 Beth fydd y broses ar gyfer craffu ar GCD arfaethedig cyn deddfu?
- 2.10 Beth yw'r broses ar gyfer cymeradwyo GCD drafft?
- 2.12 Beth fydd yn digwydd os caiff y GCD drafft ei gymeradwyo?
- 2.14 Beth fydd yn digwydd os na chaiff y GCD drafft ei gymeradwyo?
- 2.17 Beth yw'r broses ar gyfer GCD drafft Pwyllgor neu GCD arfaethedig Pwyllgor?
- 2.19 Beth yw'r broses ar gyfer GCD drafft Aelod neu GCD arfaethedig Aelod?
- 2.20 Beth yw'r broses ar gyfer balot?

### 3. Mesurau

- 3.1 Beth yw Mesur/Mesur arfaethedig?
- 3.4 Pwy sy'n gallu cyflwyno Mesur arfaethedig?
- 3.5 Sut y caiff Mesur ei gyflwyno?
- 3.7 Beth yw'r broses ar gyfer ystyried Mesur arfaethedig?
- 3.8 Beth sy'n digwydd yn ystod cyfnod 1?
- 3.13 Beth sy'n digwydd yn ystod cyfnod 2?
- 3.16 Beth sy'n digwydd yn ystod cyfnod 3?
- 3.19 Beth sy'n digwydd yn ystod cyfnod 4?
- 3.20 Beth fydd yn digwydd os caiff y Mesur arfaethedig ei basio?
- 3.21 Beth fydd yn digwydd os na chaiff y Mesur arfaethedig ei basio?
- 3.22 Beth yw'r cyfnod ailystyried?
- 3.23 Beth yw'r broses ar gyfer Mesur arfaethedig Pwyllgor?
- 3.25 Beth yw'r broses ar gyfer Mesur arfaethedig Aelod?
- 3.26 Beth yw'r broses ar gyfer balot?



# Canllaw i'r Broses Ddeddfwriaethol yn y Cynulliad

## Cyflwyniad

Mae'r Canllaw hwn yn esbonio gweithdrefn y Cynulliad ar gyfer ystyried deddfwriaeth.

### 1. Cefndir

- 1.1 Mae [Deddf Llywodraeth Cymru 2006](#) ("Deddf 2006") yn galluogi'r Cynulliad i gael mwy o bwerau i wneud ei ddeddfau ei hun, a hynny fesul achos.
- 1.2 Cyfeirir at allu'r Cynulliad i wneud y deddfau hyn fel ei "gymhwysedd deddfwriaethol".
- 1.3 Yn Neddf Llywodraeth Cymru, diffinnir cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad drwy gyfeirio at "feysydd" a "materion":
  - [Maes pwnc eang](#), e.e. priffyrdd a thrafnidiaeth a thai yw "maes";
  - [Maes polisi diffiniedig penodol](#) o fewn maes yw "mater".
- 1.4 Yn y meysydd y mae ganddo gymhwysedd deddfwriaethol, gall y Cynulliad wneud ei ddeddfau ei hun, a gelwir y rhain yn "**Fesurau**". Bydd Mesur yn cael effaith debyg i Ddeddf Seneddol.
- 1.5 Ceir rhestr o'r meysydd a'r materion yn **Atodlen 5 i Ddeddf 2006**.
- 1.6 Y meysydd presennol yw:

|                                                                     |                                          |
|---------------------------------------------------------------------|------------------------------------------|
| Maes 1: amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygu gwledig | Maes 11: tai                             |
| Maes 2: henebion ac adeiladau hanesyddol                            | Maes 12: llywodraeth leol                |
| Maes 3: diwylliant                                                  | Maes 13: Cynulliad Cenedlaethol Cymru    |
| Maes 4: datblygu economaidd                                         | Maes 14: gweinyddiaeth gyhoeddus         |
| Maes 5: addysg a hyfforddiant                                       | Maes 15: lles cymdeithasol               |
| Maes 6: yr amgylchedd                                               | Maes 16: chwaraeon a hamdden             |
| Maes 7: gwasanaethau tân ac achub a hyrwyddo diogelwch tân          | Maes 17: twristiaeth                     |
| Maes 8: bwyd                                                        | Maes 18: cynllunio gwlad a thref         |
| Maes 9: iechyd a gwasanaethau iechyd                                | Maes 19: dwr ac amddiffyn rhag llifogydd |
| Maes 10: priffyrdd a thrafnidiaeth                                  | Maes 20: y Gymraeg                       |

- 1.7 O fewn pob un o'r meysydd uchod, rhestrir materion penodol sy'n rhoi'r pŵer i'r Cynulliad wneud Mesurau o fewn y maes polisi a ddiffinnir gan y mater e.e.

**“Maes 5: addysg a hyfforddiant**

Mater 5.1

Provision about the categories of school that may be maintained by local education authorities;

Mater 5.2

Provision about the establishment and discontinuance of schools maintained by local education authorities, their change from one category to another and their alteration in other respects.”

- 1.8 Mae rhestr lawn o'r materion ar gael [yma](#).
- 1.9 Gellir diwygio Atodlen 5 i ychwanegu mwy o faterion yn y meysydd a thrwy hynny estyn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a darparu rhagor o feysydd polisi ar gyfer gwneud Mesurau.
- 1.10 Gellir diwygio Atodlen 5 naill ai drwy:
- Ddeddf Seneddol newydd; neu
  - **Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD)** (yn destun cymeradwyaeth y Cynulliad a Senedd y DU).
- 1.11 Mae adran 2 o'r canllaw hwn yn esbonio mwy am GCD a gweithdrefnau'r Cynulliad ar gyfer eu cymeradwyo (mae gan Dy'r Cyffredin a Thy'r Arglwyddi eu gweithdrefnau eu hunain).
- 1.12 Mae Adran 3 yn esbonio mwy am Fesurau a gweithdrefnau'r Cynulliad ar gyfer eu cymeradwyo.

## 2. Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol

### Beth yw Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD)?

- 2.1 Math o is-ddeddfwriaeth yw Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaeth sy'n trosglwyddo pwerau penodol o Senedd y DU i'r Cynulliad.
- 2.2 Yn ymarferol, golyga hyn y bydd pob GCD newydd yn ychwanegu mater (neu faterion) newydd yn y maes perthnasol yn Atodlen 5 (fel yn yr enghraifft a ddarperir ym mharagraff 1.7 uchod), sy'n rhoi'r pŵer i'r Cynulliad wneud Mesurau o fewn y meysydd polisi a ddiffinnir gan y mater.

### Pwy all gynnig Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol?

- 2.3 Gellir cynnig GCD gan y canlynol:
  - Llywodraeth Cynulliad Cymru;
  - pwyllgor y Cynulliad; neu
  - Aelod unigol, os caiff ei enw ei dynnu o'r balot (gweler isod am ragor o fanylion).

### Beth yw'r broses ar gyfer ystyried GCD?

- 2.4 Yn y Cynulliad, bydd yna ddau gyfnod yn y broses ar gyfer ystyried GCD, sef:
  - (i) pwyllgor yn craffu ar GCD **arfaethedig** cyn deddfu; a
  - (ii) y Cynulliad yn cymeradwyo GCD **drafft**.

### Beth fydd y broses ar gyfer craffu ar GCD arfaethedig cyn deddfu?

- 2.5 Mae craffu cyn deddfu yn rhoi'r cyfle i Aelodau ystyried darpariaethau GCD cyn iddo ddod yn ddeddf.
- 2.6 Ar ôl cyflwyno GCD **drafft**, dim ond i dderbyn neu wrthod y GCD hwnnw yn ei gyfanrwydd y gall y Cynulliad bleidleisio. Ni all ddiwygio'r GCD drafft mewn unrhyw ffordd.
- 2.7 Er mwyn rhoi'r cyfle i'r Cynulliad ystyried y GCD cyn pleidleisio arno, caiff GCD **arfaethedig** ei osod yn gyntaf.
- 2.8 Caiff y GCD arfaethedig hwn ei ystyried gan bwyllgor (craffu cyn deddfu), a fydd yn cyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau ac unrhyw argymhellion i'r Cynulliad.
- 2.9 Yn ystod y cyfnod hwn, mae'n bosibl diwygio'r Gorchymyn arfaethedig i ystyried argymhellion y pwyllgor neu unrhyw ystyriaethau eraill.

Fel y nodir uchod, yn ogystal â chael eu cymeradwyo gan y Cynulliad, rhaid i bob GCD gael ei gymeradwyo gan Senedd y DU hefyd. O ganlyniad i hyn, mae'n bosibl i bwyllgorau'r Cynulliad graffu ar y cyd â phwyllgorau Ty'r Cyffredin a Thy'r Arglwyddi cyn deddfu.

### **Beth yw'r broses ar gyfer cymeradwyo GCD drafft?**

- 2.10 Ar ôl i GCD drafft fod yn destun gwaith craffu cyn deddfu ac ar ôl iddo gael ei ddiwygio (os yn briodol), caiff ei osod gerbron y Cynulliad yn ffurfiol ynghyd â Memorandwm Esboniadol.
- 2.11 Yna bydd y Cynulliad yn pleidleisio i gymeradwyo neu wrthod y Gorchymyn drafft, na ellir ei ddiwygio.

### **Beth fydd yn digwydd os caiff y GCD drafft ei gymeradwyo?**

- 2.12 Os caiff y Gorchymyn drafft ei gymeradwyo gan y Cynulliad, cyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol fydd gosod y Gorchymyn drafft gerbron Senedd y DU i'w gymeradwyo gan Dy'r Cyffredin a Thy'r Arglwyddi.
- 2.13 Os caiff ei gymeradwyo gan y ddau Dy Seneddol, caiff ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Frenhines. Yna daw'n ddeddf drwy ddiwygio Atodlen 5 i Ddeddf 2006 gan roi rhagor o bwerau i'r Cynulliad wneud Mesurau.

### **Beth fydd yn digwydd os na chaiff y GCD drafft ei gymeradwyo?**

- 2.14 Os na fydd y Cynulliad yn cymeradwyo'r Gorchymyn drafft, bydd yn syrthio ac ni chymerir unrhyw gamau eraill mewn perthynas ag ef.
- 2.15 Os bydd y Cynulliad yn cymeradwyo'r Gorchymyn drafft ond bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwrthod gosod y Gorchymyn drafft gerbron Senedd y DU, rhaid iddo roi ei resymau dros wneud hyn yn ysgrifenedig i Brif Weinidog Cymru.
- 2.16 Os bydd y Cynulliad yn cymeradwyo'r Gorchymyn drafft ond y caiff ei wrthod gan Senedd y DU, bydd y Gorchymyn drafft yn syrthio ac ni chymerir unrhyw gamau eraill mewn perthynas ag ef.

### **Beth yw'r broses ar gyfer GCD drafft Pwyllgor neu GCD arfaethedig Pwyllgor?**

- 2.17 Caiff unrhyw bwyllgor baratoi GCD arfaethedig ac yna cyflwyno GCD drafft i'w gymeradwyo gan y Cynulliad, ar yr amod bod y GCD hwnnw o fewn cylch gwaith y pwyllgor arbennig hwnnw.
- 2.18 Mae'r Gorchymyn arfaethedig neu'r Gorchymyn drafft yn ddarostyngedig yn eang i'r un weithdrefn â'r un a amlinellir uchod.

### **Beth yw'r broses ar gyfer GCD drafft Aelod neu GCD arfaethedig Aelod?**

- 2.19 Caiff unrhyw Aelod gyflwyno GCD arfaethedig i'w ystyried, ar yr amod bod ei enw wedi'i ddewis ar hap o'r balot gan y Llywydd.

### **Beth yw'r broses ar gyfer balot?**

- 2.20 Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y balot uchod, rhaid i Aelod sydd am gyflwyno GCD arfaethedig gyflwyno'r canlynol yn gyntaf:
  - GCD arfaethedig amlinellol; a

- Memorandwm Esboniadol, yn esbonio diben y GCD arfaethedig.
- 2.21 Bydd y Llywydd yn rhoi o leiaf 7 diwrnod o rybudd i Aelodau o'i fwriad i gynnal balot er mwyn rhoi amser i Aelodau baratoi'r dogfennau gofynnol.
- 2.22 Bydd yr Aelod y caiff ei enw ei dynnu ar hap o'r balot yn cael y cyfle i gyflwyno ei achos dros ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad a gall y Cynulliad bleidleisio a all y cynnig amlinellol fwrw ymlaen ymhellach.
- 2.23 Os bydd y Cynulliad yn cymeradwyo'r GCD arfaethedig amlinellol (a gyflwynir fel rhan o'r balot), yna caiff yr Aelod gyflwyno Gorchymyn arfaethedig yn ffurfiol, a gaiff ei ystyried gan y Cynulliad fel y nodir uchod.

### 3. Mesurau

#### Beth yw Mesur/Mesur arfaethedig?

- 3.1 Darn o ddeddfwriaeth a wneir gan y Cynulliad yw Mesur. Mae iddo effaith debyg i Ddeddf Seneddol.
- 3.2 Gall y Cynulliad basio Mesurau ar unrhyw 'fater' a restrir yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006.
- 3.3 Tra bod Mesur yn mynd trwy'r Cynulliad, fe'i gelwir yn **Fesur arfaethedig**.

#### Pwy sy'n gallu cyflwyno Mesur arfaethedig?

- 3.4 Gall y canlynol gyflwyno Mesur arfaethedig:
  - Llywodraeth Cynulliad Cymru;
  - pwyllgor y Cynulliad;
  - Aelod unigol, os caiff ei enw ei dynnu o'r balot (gweler isod am ragor o fanylion);
  - Comisiwn y Cynulliad.

#### Sut y caiff Mesur ei gyflwyno?

- 3.5 Er mwyn cyflwyno Mesur rhaid:
  - ei osod yn Gymraeg a Saesneg;
  - cael 'datganiad cymhwysedd deddfwriaethol' gan y Llywydd i gyd-fynd ag ef yn nodi a oes gan y Cynulliad y pŵer i wneud y Mesur arfaethedig yn ei farn ef;
  - cael Memorandwm Esboniadol i gyd-fynd ag ef.
- 3.6 Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:
  - amcanion polisi'r Mesur arfaethedig;
  - a oedd unrhyw ffyrdd amgen o gyflawni amcanion polisi'r Mesur arfaethedig wedi'u hystyried;
  - manylion unrhyw ymgynghori a wnaed;
  - crynodeb gwrthrychol o holl ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig a'i effaith fwriadedig;
  - amcangyfrifon gorau o ran y costau sy'n gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig;
  - manylion unrhyw bwerau is-ddeddfwriaeth yn y Mesur arfaethedig;

- manylion unrhyw dâl a godir ar Gronfa Gyfunol Cymru.

### **Beth yw'r broses ar gyfer ystyried Mesur arfaethedig?**

3.7 Mae yna bedwar cyfnod yn y broses ar gyfer ystyried Mesur, sef:

- Cyfnod 1 - pwyllgor yn ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a'r Cynulliad yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol hynny;
- Cyfnod 2 - pwyllgor yn ystyried y Mesur arfaethedig ac unrhyw welliannau a gyflwynwyd yn fanwl - mae hyn yn cynnwys y pwyllgor yn edrych yn fanwl ar bob llinell o'r Mesur arfaethedig;
- Cyfnod 3 - y Cynulliad yn ystyried y Mesur arfaethedig ac unrhyw welliannau a ddewiswyd yn fanwl - mae hyn yn cynnwys y Cynulliad yn edrych yn fanwl ar bob llinell o'r Mesur arfaethedig;
- Cyfnod 4 - pleidlais gan y Cynulliad i basio testun terfynol y Mesur arfaethedig.

### **Beth sy'n digwydd yn ystod cyfnod 1?**

- 3.8 Yn ystod cyfnod 1, bydd y Cynulliad yn sefydlu pwyllgor i ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.
- 3.9 Gall y pwyllgor wahodd sylwadau gan bartïon sydd â diddordeb a rhanddeiliaid, a gall hefyd dderbyn tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig.
- 3.10 Bydd y pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ar ddiwedd ei ystyriaethau a gall gynnwys argymhellion ar gyfer diwygio'r Mesur arfaethedig.
- 3.11 Ar ôl i'r pwyllgor gyflwyno adroddiad, bydd y Cynulliad yn ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig, gan ystyried adroddiad y pwyllgor.
- 3.12 Os bydd y Cynulliad yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol, bydd y Mesurau yn symud ymlaen i gyfnod 2. Os na, bydd y Mesur yn syrthio.

### **Beth sy'n digwydd yn ystod cyfnod 2?**

- 3.13 Yn ystod cyfnod 2, bydd pwyllgor (naill ai'r pwyllgor o gyfnod 1 neu bwyllgor newydd) yn ystyried ac yn cwblhau unrhyw welliannau a gyflwynwyd i'r Mesur arfaethedig.
- 3.14 Caiff unrhyw Aelod, p'un a yw'n aelod o'r pwyllgor sy'n ystyried y Mesur arfaethedig ai peidio, gyflwyno gwelliant ond dim ond aelodau'r pwyllgor a all bleidleisio ar welliannau. Yn ystod cyfnod 2, caiff pob gwelliant derbyniadwy eu hystyried gan y pwyllgor.
- 3.15 Bydd cyfnod 2 wedi'i gwblhau pan fydd yr holl welliannau wedi'u cwblhau.

### **Beth sy'n digwydd yn ystod cyfnod 3?**

- 3.16 Yn ystod cyfnod 3, bydd y Cynulliad yn ystyried ac yn cwblhau unrhyw welliannau a gyflwynwyd i'r Mesur arfaethedig (y mae'n bosibl iddo gael ei ddiwygio o ganlyniad i unrhyw welliannau a basiwyd yn ystod cyfnod 2).
- 3.17 Yn ystod cyfnod 3, caiff unrhyw Aelod gyflwyno gwelliant i Fesur arfaethedig, ond y Llywydd fydd yn dewis y gwelliannau hynny i'w hystyried gan y Cynulliad. Gellir grwpio gwelliannau ar bynciau tebyg er mwyn eu trafod.
- 3.18 Mae cyfnod 3 ar ben pan fydd pob gwelliant wedi'i gwblhau, oni bai bod y Cynulliad yn cytuno i drafodion pellach yn ystod cyfnod 3, sy'n rhoi'r cyfle olaf i unrhyw welliannau technegol neu ganlyniadol gael eu hystyried gan y Cynulliad.

#### **Beth sy'n digwydd yn ystod cyfnod 4?**

- 3.19 Cyfnod 4 yw'r cyfnod olaf yn y broses o ystyried Mesur arfaethedig. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y Cynulliad yn pleidleisio a fydd yn cymeradwyo'r Mesur arfaethedig ar ei ffurf derfynol.

#### **Beth fydd yn digwydd os caiff y Mesur arfaethedig ei basio?**

- 3.20 Os caiff ei basio gan y Cynulliad, bydd rhaid i'r Mesur arfaethedig dderbyn cymeradwyaeth Frenhinol gan y Frenhines cyn iddo ddod yn ddarn ffurfiol o ddeddfwriaeth.

#### **Beth fydd yn digwydd os na chaiff y Mesur arfaethedig ei basio?**

- 3.21 Os na fydd y Cynulliad yn pasio'r Mesur arfaethedig, bydd yn syrthio ac ni chymerir unrhyw gamau eraill mewn perthynas ag ef.

#### **Beth yw'r cyfnod ailystyried?**

- 3.22 Ar ôl i Fesur gael ei basio gan y Cynulliad, mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddo fynd trwy gyfnod arall os codwyd unrhyw gwestiynau, naill ai gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Goruchaf Lys, ynghylch a oedd gan y Cynulliad y pŵer (h.y. cymhwysedd deddfwriaethol) i wneud y Mesur neu agweddau penodol arno.

#### **Beth yw'r broses ar gyfer Mesur arfaethedig Pwyllgor?**

- 3.23 Caiff unrhyw bwyllgor gyflwyno Mesur arfaethedig sy'n ymwneud â chylch gwaith y pwyllgor hwnnw.
- 3.24 Ar ôl iddo gael ei gyflwyno, bydd y Mesur arfaethedig yn ddarostyngedig i'r weithdrefn uchod ar gyfer Mesurau arfaethedig heblaw na chaiff egwyddorion cyffredinol pwyllgor eu hystyried oherwydd bydd disgwyl i'r pwyllgor ymgymryd â'r gwaith hwn fel rhan o'r paratodau ar gyfer ei gynigion.

#### **Beth yw'r broses ar gyfer Mesur arfaethedig Aelod?**

- 3.25 Caiff unrhyw Aelod gyflwyno Mesur arfaethedig Aelod, ar yr amod bod ei enw wedi'i ddewis ar hap o'r balot gan y Llywydd.

### **Beth yw'r broses ar gyfer balot?**

- 3.26 Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer balot, rhaid i Aelod sydd am gyflwyno Mesur arfaethedig gyflwyno'r canlynol yn gyntaf:
- teitl y Mesur arfaethedig; a
  - Memorandwm Esboniadol.
- 3.27 Bydd y Llywydd yn rhoi o leiaf 7 diwrnod o rybudd i Aelodau o'i fwriad i gynnal balot er mwyn rhoi amser i Aelodau baratoi'r dogfennau gofynnol.
- 3.28 Bydd yr Aelod y caiff ei enw ei dynnu ar hap o'r balot yn cael y cyfle i gyflwyno ei achos dros ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad a gall y Cynulliad bleidleisio a all y cynnig fwrw ymlaen ymhellach.
- 3.29 Os bydd y Cynulliad yn cymeradwyo'r cynnig, caiff yr Aelod gyflwyno Mesur arfaethedig yn ffurfiol, a gaiff ei ystyried gan y Cynulliad yn y ffordd arferol.